

nationalgrid

Ein Siarter Grantwr

Mae National Grid Electricity Transmission (NGET) yn berchen ac yn cynnal y rhwydwaith trosglwyddo trydan foltedd uchel yng Nghymru a Lloegr, gan symud trydan o ffynonellau cynhyrchu i rwydweithiau dosbarthu lleol sy'n darparu pŵer i gartrefi a busnesau.

Yn y Siarter hon rydym yn nodi ymrwymïadau NGET wrth weithio ar linellau uwchben a cheblau tanddaearol sy'n croesi dros neu o dan dir neu eiddo ein Grantwyr.

O dan ein cytundeb â chi, mae gan NGET hawliau amrywiol, gan gynnwys hawliau i gael mynediad i'ch tir neu eiddo. Fel Grantwr, mae gennych hefyd hawliau penodol o dan y cytundeb hwn.

Mae NGET yn gweithio'n galed i gynnal perthynas gadarnhaol gyda phob Grantwr. Mae ein staff, ynghyd â'n Cyflenwyr Asiant Tir, yn cynnal y rhwymedigaethau a amlinellir yn y Siarter, sy'n gweithredu fel ein hymrwymiad i gynnal y perthnasoedd hynny ond eu gwella lle bynnag y bo modd.

Rydym yn ymroddedig i gyflawni ein cyfrifoldebau gyda phroffesiynoldeb, effeithlonrwydd, ac ymyrraeth leiaf posibl i chi a'ch eiddo.

Ein hymrwymïadau i chi

Diogelwch yw ein blaenoriaeth: Byddwn yn gweithio mewn ffordd sy'n cadw pobl, da byw a'r amgylchedd yn ddiogel. Byddwn yn mabwysiadu dulliau gwaith cyfrifol sy'n ceisio osgoi niwed tra'n cydymffurfio â deddfwriaeth, polisïau, canllawiau a'r arferion gorau yn y diwydiant. Rydym yn ymroddedig i ddiogelu diogelwch y cyhoedd, ein gweithwyr, ac unrhyw un sy'n gweithio gyda ni.

Byddwn yn cymryd pob rhagofal rhesymol i atal lledaeniad clefydau anifeiliaid a phlanhigion a byddwn yn cadw at yr holl fesurau bioddiogelwch rhesymol y mae angen i ni eu gweithredu ar eich tir neu eiddo.

Cyfathrebu: Ar adegau, bydd angen i ni gael mynediad i'ch tir i adnewyddu, archwilio, cynnal a chadw neu atgyweirio ein hasedau. Byddwn yn ymdrechu i roi o leiaf saith diwrnod o rybudd yn ysgrifenedig cyn mynediad, ac eithrio mewn argyfwng.

Parchu eich eiddo: Byddwn yn cytuno ar lwybr mynediad ymlaen llaw i leihau ymyrraeth, ac yn lleihau effaith lle bynnag y bo modd, ac eithrio mewn argyfwng. Byddwn yn amlinellu'r gwaith sydd ei angen a'r math o gerbydau yr ydym yn debygol o'u defnyddio. Yn dibynnu ar y math o waith ac er budd y ddwy ochr, efallai y bydd angen i ni gynnal cofnod o gyflwr y llwybrau mynediad a'r ardaloedd gwaith arfaethedig cyn mynd i mewn.

Iawndal ac Asiantau Tir: Yn dilyn mynediad NGET i'ch tir neu eiddo, efallai y bydd difrod neu golled sy'n gofyn am iawndal, lle nad oedd lliniaru'n bosibl. Os byddwn yn achosi unrhyw golled neu ddifrod, byddwn yn cymryd camau rhesymol i wneud iawn yn y modd y cytunwyd arno.

Mae NGET yn cefnogi'r Côt Ymarfer a gyhoeddwyd gan The Central Association of Agricultural Valuers (CAAV), Energy Networks Association (ENA) a'r Royal Institution of Chartered Surveyors (RICS). Mae'r Côt ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn perthynas â hawliau dros dir ar gyfer seilwaith trydan, boed yn gweithredu ar ran ymgymwrwr trydan, ffermwr neu dirfeddiannwr.

Mae'r canllaw arfer gorau hwn yn cydnabod y rôl hanfodol y mae gweithwyr proffesiynol yn ei chwarae wrth ddarparu seilwaith trydan gan sicrhau bod y rhai sydd gyda offer ar eu tir yn cael eu cynghori, eu cynrychioli a'u trin yn deg.

Diogelu'r amgylchedd: Rydym yn ymrwymo i gymryd pob rhagofal rhesymol ac i fabwysiadu mesurau lliniaru i ddiogelu'r amgylchedd naturiol a hanesyddol, unrhyw fuddiannau pysgota a chwaraeon, ac i ddilyn argymhellion y llywodraeth. Ein nod yw diogelu a gwella'r amgylchedd drwy barhau i chwilio am ffyrdd o leihau effaith ein gwaith yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.

Ymddygiad a phroffesiynoldeb: Byddwn bob amser yn gweithredu mewn ffordd broffesiynol a chwrtais. Byddwn yn cadw ardaloedd gwaith yn lân ac yn daclus ac yn eu clirio ar ôl cwblhau'r gwaith. Byddwn yn diogelu ein safleoedd gyda mesurau diogelwch priodol, ac ni fyddwn yn tynnu walïau, ffensys na gwrychoedd heb ymgynghori ymlaen llaw. Rydym yn ymrwymo i adfer eich tir i'r cyflwr yr oedd ynddo yn y man cyntaf, lle bo hynny'n rhesymol ymarferol.

Yng Nghymru a Lloegr, mae mwy na:




21,000 peilon



4,500 milltir o linellau pŵer uwchben



410 milltir o geblau tanddaearol



340 o is-orsafau



Eich cyfrifoldebau fel Grantwr

Cynnal cyfathrebu: Cadwch eich rhif Grantwr yn ddiogel a defnyddiwch ef pan fyddwch yn cysylltu â NGET fel y gallwn ateb eich ymholiad yn gyflym. Dylai Grantwyr hysbysu NGET os oes unrhyw newid yn eu hamgylchiadau, megis symud tŷ, gwerthiant tir neu newid trefniadau tenantiaeth.

Darparu mynediad diogel: Bydd ein gweithwyr a'n contractwyr bob amser yn cario cerdyn adnabod. Rhowch ganiatâd i fynediad pan ofynnir amdano os gwelwch yn dda a gadewch i ni wybod am unrhyw risgiau i'n staff neu contractwyr, e.e. saethau, anifeiliaid peryglus, agoriadau cloddio. Nodwch hefyd unrhyw rwystrau i fynediad, megis giatiau wedi'u cloi.

Diogel i weithio: Cyn i chi ddechrau unrhyw waith ger ein hoffer, cyfeiriwch at Nodyn Canllaw Technegol 287 NGET a'r canlynol:

- osgoi unrhyw gamau a allai niweidio neu beryglu diogelwch ein hoffer
- dylech roi gwybod i ni ymlaen llaw os oes angen cloddio neu wneud gwaith tir ger ein ceblau tanddaearol
- peidiwch â chodi strwythurau parhaol ger ceblau tanddaearol heb ein caniatâd
- peidiwch â newid dyfnder y pridd uwchben ceblau heb ein caniatâd

Mesurau bioddiogelwch a chwistrellu cnydau: Dylai Grantwyr roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl os oes angen dilyn unrhyw fesurau bioddiogelwch wrth gael mynediad i'r tir neu'r eiddo. Dylech hefyd hysbysu NGET os bydd unrhyw chwistrellu cnydau yn digwydd yn agos at neu ar yr un pryd â'r gwaith.

Hawliadau iawndal: Ein dyletswydd ar y cyd yw lliniaru colledion lle bo modd. Cadwch bob cofnod o golledion a derbynebaw a chyflwynwch y rhain ynghyd â lluniau o'r difrod er mwyn i ni eu hadolygu os gwelwch yn dda. Bydd NGET yn adfer neu'n talu iawndal i chi am unrhyw ddifrod a cholledion teg a rhesymol.

Cynrychiolaeth broffesiynol: Bydd NGET yn talu ffioedd proffesiynol rhesymol lle mae asiantau'n cael eu cyfarwyddo i setlo hawliad iawndal, fel y nodir yn y fersiwn gyfredol o'n dogfen Talu Ffioedd Syrfewyr.

- sicrhewch bellteroedd diogel rhwng llinellau pŵer uwchben a'r ddaear, adeiladau neu wrthrychau
- cymerwch ofal gyda offer uchel fel craenau neu ysgolion ger llinellau uwchben – cadwch nhw'n isel neu'n llorweddol
- peidiwch â storio deunyddiau, yn enwedig rhai fflamadwy, ger sylfaen peilonau neu o dan linellau pŵer, ac
- sicrhewch fod unrhyw weithwyr, meddiannwyr neu ymwelwyr ar eich tir hefyd yn ymwybodol o'r rheolau diogelwch hyn.

Cysylltwch â'n tîm Cysylltiadau Grantwr os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os hoffech gyflwyno cwyn:

Evch i'n gwefan: nationalgrid.com/electricity-transmission/grantors

Ffoniwch ein llinell gymorth: **0800 389 5113** (9am – 5pm o ddydd Llun i ddydd Iau ac 9am – 4pm ar ddydd Gwener).

E-bostiwch ni: Box.grantorrelations@nationalgrid.com

Ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â 'diogel i weithio':

Ffoniwch ein Tîm Diogelu Asedau: **0800 001 4282**

E-bost: assetprotection@nationalgrid.com

neu cyflwynwch ymholiad drwy wefan Linesearch: lsbud.co.uk